**PWYLLGOR DEDDF YSTÂD YR EGLWYS YNG NGHYMRU**

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 27 Chwefror, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, J.E. Charles, H.C. Hamilton a M.J. Hooper.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.J.G. Morgan.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. DIWEDDARIAD BUDDSODDI CCLA -

PENDERFYNWYD – Nodi'r cyflwyniad, fel y'i darparwyd.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaeth ddilynol yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL 2023/24 CYFRAN 4 (CAC) –

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo’r cais am gymorth grant, fel y’i nodir yn Atodiad A i’r adroddiad gan Eglwys Blwyf Sant Niclas yng Nghymru, Llandaf.

(2) Cymeradwyo’r cais am gymorth grant, fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad gang Eglwys Bedyddwyr Croes y Parc, mewn ewido yn amodol ar gael rhagor o

wybodaeth gan yr Ymgeisydd mewn perthynas ag arian cyfatebol a’r dull gwaith atgyweirio bwriedig. .

(3) Bod unrhyw falansau incwm dilynol a gadarnhawyd yn 2023/24 yn cael eu trosglwyddo i'r cronfeydd cyffredinol anghyfyngedig.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaeth ddilynol yn y cyfarfod.

(2) Dyfarnu cyllid y cais ar ôl darparu tystiolaeth foddhaol yn gyntaf, i ddangos bod gwariant cysylltiedig wedi digwydd.

(3) Bod unrhyw falansau incwm a nodwyd ar gyfer 2023/24 yn cael eu cario ymlaen i gronfeydd wrth gefn cyffredinol 2024/25 i'w tynnu i lawr gan y Pwyllgor mewn perthynas â cheisiadau a dderbyniwyd yn 2024/25.

MATER OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU YN FRYS –

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

EITEM RHAGLEN 6(i). ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2022/23 AC ARHOLIAD ANNIBYNNOL (DCR) –
**(Ar fyrder oherwydd yr angen i’r Pwyllgor ystyried, fel sy’n ofynnol gan Ddeddf Elusennau 2011 Adran 162, cyn ei lofnodi gan Archwilio Cymru a’i gyflwyno i’r Comisiwn Elusennau)**

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23, fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad, ac awdurdodi'r Cadeirydd i'w lofnodi ar ran yr Ymddiriedolwyr. Y cyfrifon i'w llofnodi gan Archwilio Cymru a'r cyfrifon cymeradwy i'w cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau.

(2) Bod Awdurdod wedi'i Ddirprwyo i Gadeirydd Pwyllgor Deddf y Degwm mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 i gwblhau unrhyw faterion cyflwyniadol a benderfynir gan Archwilio Cymru.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaeth ddilynol yn y cyfarfod yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, a Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008.

(2) Cwblhau unrhyw faterion cyflwyniadol sy'n weddill y gofynnir amdanynt gan Archwilio Cymru.